Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Feithrin Brynteg
## Y Stryd Fawr
## Abersychan
## Pont-y-pŵl
## Torfaen
## NP4 7DG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Feithrin Brynteg ym mhentref Abersychan, ger Pont-y-pŵl yn awdurdod lleol Torfaen.  Mae’r ysgol yn gwasanaethu ardal eang, ac mae 52 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, i gyd rhwng tair a phedair oed.  Mae tri o blant yn mynychu’n amser llawn ac mae gweddill y plant yn mynychu naill ai ar gyfer sesiynau’r bore neu’r prynhawn.

Mae’r ysgol yn cyflogi dau athro amser llawn, sy’n cynnwys y pennaeth a’r pennaeth cynorthwyol, un aelod o staff cymorth amser llawn a thri aelod o staff cymorth rhan-amser.

Mae’r ysgol wedi nodi mai ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Nid oes gan unrhyw blant ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae ychydig iawn o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn o blant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2012 ac mae’r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd er 2009.

Cyllideb ysgolion unigol 2015-2016 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Feithrin Brynteg yw £6,852, sy’n cymharu â chyfartaledd cenedlaethol o £6,482 ar gyfer yr holl ysgolion meithrin a gynhelir yng Nghymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y feithrinfa yn rhagorol oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf iawn yn ystod eu cyfnod yn y feithrinfa
- mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda, ac yn benodol, yn gwneud cynnydd rhagorol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu
- mae gan bron bob un o'r plant agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu, ac maent yn frwdfrydig a llawn cymhelliant
- mae ymddygiad plant yn dda iawn
- mae profiadau dysgu'n cwmpasu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn eithriadol o dda ac yn rhoi profiadau gwerthfawr i blant ymarfer eu medrau trwy brofiadau ymarferol diddorol
- mae'n rhoi cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu am ymwybyddiaeth amgylcheddol a byw yn gynaliadwy
- mae ymarferwyr yn gofalu am blant yn dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel a saff
- mae'n gwneud defnydd da o'i hamgylcheddau dan do ac awyr agored i gefnogi dysgu

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r feithrinfa yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth, ynghyd â'r pennaeth cynorthwyol, weledigaeth gref ar gyfer meithrin dysgwyr medrus ac annibynnol
- mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sefydlu dealltwriaeth drylwyr o arfer effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob un o'r staff, gyda phwyslais cryf ar ddysgu trwy brofiad ymarferol
- mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu
- ceir diwylliant effeithiol o welliant parhaus
- mae arweinwyr yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau
- mae ganddi ystod o bartneriaethau effeithiol
- mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n dda ac mae'r feithrinfa'n darparu gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella sesiynau i adolygu gwaith plant fel eu bod yn cynnal eu diddordeb ac yn atgyfnerthu eu dysgu'n effeithiol

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau i hyrwyddo bwyta'n iach yn cael eu dilyn yn gyson

A3 Mynd i'r afael â materion a godwyd yn ystod yr arolygiad am yr adeilad

A4 Gwella trylwyredd y broses hunanarfarnu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae plant yn dechrau yn y feithrinfa ag ystod eang o alluoedd. Mae medrau llawer o blant ar y lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, neu'n is, wrth iddynt ddechrau yn y feithrinfa. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cryf iawn yn ystod eu cyfnod yn y feithrinfa.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn hyderus, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod eang o eirfa am eu hoedran, er enghraifft wrth siarad am yr angen i ddatblygu eu cyhyrau er mwyn iddynt allu codi cleddyf mawr. Mae llawer ohonynt yn sgwrsio ag oedolion o'u gwirfodd. Maent yn esbonio'r angen i ddilyn rysáit a chymysgu'r cymysgedd yn drylwyr wrth wneud cacen. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ar oedolion a phlant eraill. Maent yn ymateb i gyfarwyddiadau ac yn aros eu tro wrth wrando ar bobl eraill.

Mae llawer o blant yn adnabod eu henw wrth iddynt hunangofrestru. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos pleser a mwynhad wrth rannu llyfrau a gwrando ar storïau. Maent yn dal llyfrau'r ffordd gywir i fyny ac yn siarad am y lluniau. Mae plant hŷn yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol ynglŷn â beth fydd yn digwydd nesaf wrth wrando ar stori. Maent yn deall beth mae awdur yn ei wneud ac yn disgrifio eu hunain fel awduron pan fyddant yn cyfeirio at y llyfr dosbarth y maent wedi'i greu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd rhagorol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu. Mae bron pob un o'r plant hŷn yn hyderus i roi cynnig ar ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn dal cyfarpar ysgrifennu gan afael ynddo'n gywir ac maent yn seinio enwau llythrennau ar goedd wrth iddynt greu eu marciau. Mae plant sy'n fwy abl yn rhoi cynigion da ar sillafu geiriau anodd, fel 'strawberry' a 'butterfly'. Mae statws uchel i ysgrifennu yn y feithrinfa ac mae plant yn ysgrifennu yn ystod y rhan fwyaf o weithgareddau. Mae llawer o blant hŷn yn ysgrifennu eu henwau'n eglur ar eu gwaith. Mae plant yn gweld eu hunain fel awduron ac maent yn darllen yn ôl yr hyn y maent wedi ei ysgrifennu pan ofynnir iddynt. Maent yn ysgrifennu at ystod o ddibenion yn arbennig o dda. Mae'r rhain yn cynnwys storïau, rhestrau, gwahoddiadau, llythyrau, bwydlenni a chardiau pen-blwydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau rhifedd. Mae llawer ohonynt yn cyfrif ac yn adnabod rhifau i ddeg, ac mae rhai ohonynt yn trefnu a chyfrif rhifau y tu hwnt i ddeg yn hyderus. Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol berthnasol wrth ddisgrifio siâp a maint gwrthrychau, a gall y rhan fwyaf o blant hŷn wneud cymariaethau rhwng gwrthrychau. Er enghraifft, esbonio pa un yw'r hiraf neu'r byrraf wrth gymharu maint pryfed genwair. Mae llawer o blant yn gwybod trefn dyddiau'r wythnos ac yn deall sut i ddefnyddio amserydd i osod terfyn amser ar gyfer tasg.

Mae medrau meddwl a datrys problemau plant yn datblygu'n dda ac maent yn cymhwyso'r rhain yn rheolaidd wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, gwnânt ddewisiadau synhwyrol wrth gynllunio parti neu maent yn defnyddio dulliau profi a methu wrth gysylltu cyfres o diwbiau fel bod dŵr yn llifo o un i'r llall.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau corfforol datblygedig. Maent yn rhedeg, hopian, sgipio, neidio a chropian gyda rheolaeth dda. Defnyddiant y llwybr antur yn hyderus ac maent yn symud o un darn o offer i un arall yn ddidrafferth, gan ddangos cydbwysedd a chryfder da. Mae llawer o blant yn dangos cydsymud da wrth reidio amrywiaeth o deganau pedal a defnyddio llwyau hir i drosglwyddo 'bwyd' o un cynhwysydd i un arall yn y gegin fwd.

Mae medrau Cymraeg plant yn datblygu'n dda iawn. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod enwau lliwiau ac mae plant hŷn yn gwybod enwau siapiau a rhifau cyfarwydd yn Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o blant yn disgrifio'r tywydd ac mae rhai ohonynt yn cysylltu brawddegau wrth ddisgrifio rhai nodweddion tywydd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn briodol i ystod o orchmynion ac mae plant hŷn yn dilyn cyfres o gyfarwyddiadau yn hyderus. Mae rhai plant sy'n fwy abl yn defnyddio ymadroddion byr ac yn gofyn ble mae pethau gan ddefnyddio brawddegau llawn.

**Lles: Da**

Mae plant yn hapus iawn yn dod i'r feithrinfa. Mae gan bron bob un ohonynt agwedd gadarnhaol iawn tuag at eu dysgu, ac maent yn ddysgwyr brwdfrydig a llawn cymhelliant. Mae aelodau staff yn ystyried barn plant ynglŷn â beth a sut y maent yn dysgu yn ddifrifol iawn. O ganlyniad, mae plant yn cyfrannu'n bwerus at eu dysgu eu hunain, a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn ddysgwyr annibynnol nad ydynt yn ofni mentro ac yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau. Mae hyn yn hyrwyddo synnwyr cryf o les. Mae llawer ohonynt yn myfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith plant eraill yn briodol. Maent yn awgrymu ffyrdd i'w gwneud yn well ac yn datrys problemau i wneud hyn. Er enghraifft, wrth wneud castell o flociau, maent yn awgrymu bod angen to arno, ac yn ceisio canfod sut gallant ddefnyddio offer i wneud to.

Mae bron pob un o'r plant yn gwybod sut i aros yn ddiogel ac yn cymryd gofal priodol wrth ddefnyddio offer y feithrinfa, fel sisyrnau neu forthwylion a hoelion. Maent yn siarad ag oedolion os ydynt yn teimlo'n anhapus ynghylch rhywbeth. Mae gan lawer o blant ddealltwriaeth dda ynghylch pa fwydydd sy'n iach. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud ymarfer corff yn hapus, gan ddringo a neidio yn yr ardaloedd dysgu yn yr awyr agored a defnyddiant y treisiclau yn frwdfrydig. Mae bron pob un o'r plant yn deall pwysigrwydd brwsio dannedd a hylendid personol.

Mae plant yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd mewn gweithgareddau dysgu a chwarae fel ei gilydd. Mae bron pob un o'r plant yn dangos ystyriaeth at ei gilydd ac yn deall pwysigrwydd cymryd eu tro. Maent yn gofalu am anifeiliaid anwes y feithrinfa yn dda, er enghraifft peidio â gwneud synau uchel a allai godi ofn ar Rizzles, y mochyn cwta anwes.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau, fel bod yn 'helpwr heddiw' am y diwrnod. Maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn ddifrifol ac yn gweithio'n galed i gwblhau'r tasgau dan sylw. Mae llawer o blant yn cymryd rhan weithredol mewn bywyd cymunedol. Er enghraifft, maent wedi creu cynlluniau i wella'r parc lleol ac yn cynnal perfformiadau ar gyfer y cartref preswyl lleol. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar lefelau hyder plant ac maent yn helpu i wella eu medrau llafaredd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd y feithrinfa yn brydlon.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae cwricwlwm y feithrinfa yn rhoi cyfleoedd ystyrlon a pherthnasol i blant ddatblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae ansawdd y cynllunio yn dda iawn ac mae ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda iawn i awgrymiadau plant wrth gynllunio a datblygu gweithgareddau. Er enghraifft, fe wnaethant ychwanegu bwth lluniau ar ôl i blant nodi bod angen un wrth gynllunio parti. Mae'r feithrinfa yn gwneud defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i wella'r cwricwlwm, fel ymweld â fferm leol yn ystod thema am anifeiliaid.

Mae profiadau dysgu yn cwmpasu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn eithriadol o dda ac yn rhoi profiadau gwerthfawr i blant ymarfer eu medrau trwy brofiadau ymarferol diddorol. Mae cynllunio yn ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn gwneud y gorau o bob cyfle i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant trwy dasgau ffocysedig ac wrth ymyrryd yn ystod chwarae rhydd plant. Ceir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar tra byddant yn chwarae ac mae ymarferwyr wedi meddwl am y rhain, a'u cynllunio'n eithriadol o dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn creu marciau'n hyderus mewn ystod eang o gyd-destunau ac yn gweld eu hunain fel awduron.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau iaith Gymraeg plant yn llwyddiannus iawn. Defnyddiant y Gymraeg trwy gydol y dydd, ac ar gyfer arferion a thasgau penodol hefyd. Mae gan y feithrinfa ystod dda o adnoddau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae ymarferwyr yn annog plant i ysgrifennu yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg ac maent yn gwerthfawrogi eu cynigion ysgrifennu. Maent yn gwobrwyo plant am ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell trwy'r system tocyn iaith ac mae plant yn awyddus i gasglu tocynnau am arddangos eu medrau Cymraeg. Mae'r feithrinfa yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru yn briodol trwy ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r feithrinfa yn rhoi cyfleoedd rhagorol i blant ddysgu am ymwybyddiaeth amgylcheddol a byw yn gynaliadwy. Trwy ardal goedwig sefydledig, mae plant yn dysgu sut i ofalu am y byd o'u cwmpas. Maent yn dysgu tyfu llysiau ac yn ailgylchu a monitro gwastraff yn y feithrinfa. Caiff y plant eu hannog i gasglu a defnyddio deunyddiau wedi eu hailgylchu yn eu gwaith celf a chrefft.

Mae ymarferwyr yn meithrin dealltwriaeth plant o'r byd ehangach yn briodol trwy amrywiaeth o fentrau, fel casglu ar gyfer plant yn Syria, llenwi blychau esgidiau ar gyfer plant sy'n llai ffodus ac addysgu am wyliau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Divali.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn sefydlu perthnasoedd gweithio da iawn gyda'r plant. Maent yn bwyllog a chroesawgar ac yn ymateb i anghenion unigol plant yn eithriadol o dda. O ganlyniad, mae plant yn teimlo eu bod yn cael cymorth ac maent yn hyderus i fynegi eu hunain a rhoi cynnig ar bethau newydd. Er enghraifft,

defnyddiant forthwyl a hoelion neu maent yn dringo coed gydag annibyniaeth gynyddol. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r hyn y mae plant yn gallu ei wneud, ac maent yn darparu lefel addas o her ar gyfer pob plentyn.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn rhannu dull ar y cyd i ddatblygu medrau meddwl plant, ac maent yn ymateb yn dda i'w diddordebau. Defnyddiant dechnegau holi effeithiol ac maent yn rhoi digonedd o amser i blant ateb. O ganlyniad, mae plant yn datblygu hyder wrth siarad o flaen grŵp ac yn rhoi atebion estynedig i gwestiynau. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau ac mae plant yn dangos lefelau uchel o ymgysylltu ac ymglymiad oherwydd y dull hwn.

Pan fydd plant wedi llwyr ymgolli mewn gweithgareddau chwarae rhydd, mae ymarferwyr yn ymyrryd yn sensitif ar adegau priodol i ymestyn dysgu plant. Maent yn gwybod pryd i sefyll yn ôl, pryd i annog plentyn neu roi cymorth, i alluogi'r plentyn i gael y gorau o dasg. Er enghraifft, maent yn caniatáu i blant bwyso cynhwysion a chymysgu cacennau heb oruchwyliaeth uniongyrchol gan oedolyn. Mae plant yn cael ymdeimlad o falchder a chyflawniad o gwblhau tasgau ar eu pen eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o sesiynau yn symud ar gyflymdra priodol ac yn cynnal diddordeb plant yn dda, ond mae sesiynau adolygu'n para'n rhy hir o bryd i'w gilydd, ac o ganlyniad, mae plant yn dechrau aflonyddu ac nid ydynt yn atgyfnerthu eu dysgu'n effeithiol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau i helpu disgyblion i ddeall sut mae eu gwaith yn gwella a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf. Er enghraifft, mae'r lluniau 'marvellous me', yn helpu plant i ddeall sut mae eu medrau darlunio yn gwella a'r nodweddion y mae angen iddynt eu cynnwys wrth dynnu llun ohonyn nhw eu hunain. Mae arsylwadau dyddiol o blant yn rhoi darlun clir o'u cryfderau, eu diddordebau a meysydd datblygu eang. Mae ymarferwyr yn cynllunio'r wybodaeth hon yn erbyn targedau llythrennedd a rhifedd i olrhain datblygiad medrau plant yn effeithiol. Defnyddiant ddeilliannau arsylwadau ac olrhain i osod heriau priodol a chynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae adroddiadau i rieni a phroffiliau plant yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plentyn a'u profiadau dysgu.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ymarferwyr yn gofalu am blant yn dda ac maent yn darparu amgylchedd diogel a saff. O ganlyniad, mae plant yn hapus, wedi ymgynefino ac yn barod i gymryd rhan mewn dysgu.

Yn gyffredinol, mae'r feithrinfa'n gwneud trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r rhan fwyaf o fwyd a byrbrydau yn iach, ond mae ymarferwyr yn cynnig dewisiadau llai iach i blant o bryd i'w gilydd. Mae ymarferwyr yn defnyddio amgylchedd awyr agored helaeth y feithrinfa yn dda i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a datblygu cydsymud a medrau plant.

Caiff plant gyfleoedd da ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, mae'r feithrinfa yn defnyddio'i thir yn dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol plant trwy synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod ynglŷn â'r byd naturiol.

Mae'r feithrinfa yn lleoliad cynhwysol iawn. Mae ymarferwyr yn nodi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r pennaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod plant yn cael cymorth a chyngor ychwanegol yn gyflym, er enghraifft gan y gwasanaeth lleferydd ac iaith. Mae'r feithrinfa'n gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol fel seicolegwyr addysg ac ymwelwyr iechyd i gynorthwyo plant a'u rhieni. Caiff rhieni gyfleoedd addas i drafod a chytuno ar gynlluniau addysg unigol a chynlluniau personol plant gydag ymarferwyr. Mae hyn yn sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol yn cymryd rhan lawn a gweithredol ym mywyd y feithrinfa ac yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau.

Mae'r feithrinfa'n hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd plant yn dda. Mae ganddi weithdrefnau effeithiol i fynd i'r afael â phresenoldeb a phrydlondeb gwael. O ganlyniad, mae prydlondeb a phresenoldeb wedi gwella.

Mae safle'r feithrinfa yn ddiogel. Mae trefniadau'r feithrinfa ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r feithrinfa yn gymuned gymhwysol lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi a'i barchu. Ceir awyrgylch hapus a gofalgar lle mae pob plentyn yn teimlo'n hyderus a'i fod yn gallu dysgu. Caiff pob plentyn gyfle cyfartal i fanteisio ar ddarpariaeth y feithrinfa, ac fe geir polisïau priodol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r feithrinfa yn hyrwyddo ethos hynod gryf o ddysgu annibynnol.

Mae'r feithrinfa yn gwneud defnydd da o'i hamgylcheddau dan do ac awyr agored i gefnogi dysgu. Mae'r amgylchedd yn yr awyr agored, sy'n ddiddorol ac yn cynnwys adnoddau da, yn cyfrannu'n sylweddol at ddysgu a lles plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn datblygu medrau dychmygus plant yn effeithiol yn y 'garej' a'r 'caffi' awyr agored, tra bod yr ardal gerddorol a'r 'gegin fwd' yn yr awyr agored yn rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creadigol.

Mae offer mawr, fel y rhaff dynn a'r llwybr antur, yn rhoi lefel briodol o her gorfforol i blant ac mae'n rhoi cyfle iddynt fentro. Mae'r ardal goedwig yn cefnogi dealltwriaeth plant o'r amgylchedd yn dda, ac mae ymarferwyr yn eu hannog i dyfu eu llysiau eu hunain yn eu rhandir. Caiff y tir ei gynnal yn dda, ac mae'r adeiladau'n ddiogel.

Mae gwneuthuriad adeiladau'r feithrinfa yn hen, ac mae angen adnewyddu'r addurniad mewnol. Er gwaethaf hyn, mae'r adeilad yn olau a helaeth ac mae'r feithrinfa yn defnyddio'r amgylchedd dysgu dan do yn dda i gefnogi dysgu ac addysgu. Mae'r feithrinfa yn ddiogel ar y cyfan, er nad oes gan bob drws amddiffyniadau bysedd neu nid ydynt yn cau'n ddigon araf.

Mae ymarferwyr yn arddangos gwaith plant yn ddeniadol ac yn gwneud defnydd da o arddangos i ddangos y cynnydd a wnânt. Ceir digonedd o adnoddau, ac maent yn gweddu'n dda i anghenion dysgu plant. Er enghraifft, ceir ardal goginio a phwll tywod mawr dan do. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i ddatblygu ystod lawn medrau plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth, ynghyd â'r pennaeth cynorthwyol, weledigaeth gref ar gyfer meithrin dysgwyr medrus ac annibynnol a rhoi'r dechrau gorau i'w haddysg. Maent yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y feithrinfa yn dda wrth bob un o'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr, gan greu tîm agos sydd â synnwyr o ddiben ar y cyd. Mae arweinwyr yn rhannu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol ac yn gweithio yn unol â'u cryfderau.

Mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i sefydlu dealltwriaeth drylwyr o arfer effeithiol y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob un o'r staff, gyda phwyslais cryf ar ddysgu trwy brofiad ymarferol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain a phob un o'r ymarferwyr, ac maent yn cyfleu'r rhain yn dda trwy gyfarfodydd rheolaidd a chyswllt anffurfiol. Mae hyn yn creu amgylchedd gweithio adeiladol lle mae arweinwyr yn cynorthwyo a herio ymarferwyr i wneud eu gorau. Mae pob un o'r ymarferwyr yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau dyddiol ac maent yn cyflawni'r rhan yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod ymarferwyr yn elwa ar werthusiadau rheolaidd, gan nodi targedau sydd wedi eu cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r ysgol gyfan ac anghenion unigol. O ganlyniad, ceir safonau addysgu, dysgu a lles uchel ar draws y feithrinfa.

Mae'r feithrinfa'n gweithio'n effeithiol tuag at fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu medrau rhifedd, llythrennedd a medrau Cymraeg plant. Fodd bynnag, mae cynnydd tuag at helpu plant i ddysgu am fwyta'n iach yn llai datblygedig.

Mae'r pennaeth yn hysbysu'r corff llywodraethol am berfformiad y feithrinfa yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau'r feithrinfa a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Maent yn cefnogi'r feithrinfa'n dda ac maent wedi dechrau datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Ceir diwylliant effeithiol o welliant parhaus yn y feithrinfa. Mae'r pennaeth a'r pennaeth cynorthwyol yn gwneud defnydd da o ystod o weithdrefnau hunanarfarnu i nodi meysydd priodol i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi addysgu a dysgu, ac arfarnu ansawdd ymgysylltiad plant â'r amgylchedd dysgu. Mae ymarferwyr yn cynnal arfarniadau dyddiol o gynllunio a chynnydd plant yn dda. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ystyried pa strategaethau a gweithgareddau sydd fwyaf effeithiol o ran cefnogi dysgu plant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o wybodaeth am asesu i arfarnu ac olrhain cynnydd plant yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn eu galluogi i nodi meysydd priodol i'w gwella. Yn dilyn dadansoddiad o'r wybodaeth olrhain hon, mae ymarferwyr wedi gwella eu ffocws ar ddatblygu medrau darllen cynnar plant yn ddiweddar. Mae'r feithrinfa'n defnyddio holiaduron yn dda i ymgynghori â rhieni ac mae'n ymateb i'w hawgrymiadau a'u ceisiadau am gymorth. Er enghraifft, dangosodd ymarferwyr sut i hyrwyddo medrau ysgrifennu cynnar plant trwy arbrofi â chreu marciau mewn gwahanol ffyrdd.

Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o weithdrefnau hunanarfarnu i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau. Caiff y rhain eu cynnwys mewn cynllun defnyddiol, y maent yn ei rannu a'i adolygu'n rheolaidd gydag ymarferwyr a llywodraethwyr. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hunanarfarnu yn tueddu i fod yn ddisgrifiadol ac nid yw bob amser yn rhoi dadansoddiad clir o gryfderau'r feithrinfa a'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, ni roddir ystyriaeth briodol i rai meysydd pwysig, fel bwyta'n iach. Mae arfarniadau o gynlluniau blaenorol yn dangos bod gan y feithrinfa hanes da o wneud gwelliannau effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored yn llwyddiannus a chryfhau darpariaeth i gefnogi medrau ysgrifennu cynnar plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn nodwedd dda yn y feithrinfa. Ceir perthynas weithio agos rhwng rhieni a'r feithrinfa. Mae boreau coffi rheolaidd yn cyfrannu'n dda at y berthynas hon ac yn galluogi rhieni i ddod yn fwy ymwybodol o waith y feithrinfa ac yn gofyn cwestiynau ynglŷn â sut a beth y mae eu plant yn ei ddysgu. O ganlyniad, mae rhieni'n ymwybodol o sut gallant gefnogi eu plant gartref.

Ceir cysylltiadau cryf â'r cartref preswyl lleol ar gyfer hen bobl. Mae hyn yn cyfrannu at hyder a medrau cyfathrebu plant yn dda.

Mae trefniadau ar gyfer trosglwyddo i ysgolion cynradd lleol yn gynhwysfawr, yn enwedig ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae eu hathrawon newydd yn ymweld â'r feithrinfa ac mae ymarferwyr yn mynd gyda'r plant i'w hysgol newydd i'w helpu i ymgynefino. O ganlyniad, caiff plant eu paratoi'n dda i symud i ysgol amser llawn.

Mae'r feithrinfa'n cefnogi ysgolion eraill ar draws y consortiwm rhanbarthol i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Mae ysgolion yn ymweld â'r feithrinfa i arsylwi sesiwn fel rhan o fodiwl hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â rhannu arfer dda, mae hyn yn helpu staff y feithrinfa i fyfyrio ar eu harfer eu hunain ac ysgogi gwelliannau wedi eu seilio ar adborth gan gydweithwyr eraill.

Mae'r feithrinfa wedi elwa ar gymorth busnesau ac elusennau lleol i wella'i hadnoddau. Er enghraifft, mae cyllid wedi galluogi'r feithrinfa i brynu pwll tywod mawr yn yr awyr agored.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod gan y feithrinfa staff priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'n defnyddio ymarferwyr yn dda, gan wneud y gorau o'u harbenigedd a'u profiad i fodloni anghenion plant unigol. Mae ymarferwyr yn elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus gwerth chweil i ymateb i anghenion a nodwyd trwy weithdrefnau arfarnu'r feithrinfa a'r broses rheoli perfformiad effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i gysgodi'r pennaeth cynorthwyol, dysgu sut i holi plant yn effeithiol a sicrhau dull pwyllog cyson o ran addysgu a dysgu yn y feithrinfa.

Mae'r feithrinfa'n darparu amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu i bob un o'r staff. Mae plant yn elwa ar adnoddau dysgu o ansawdd da iawn yn y feithrinfa dan do a'r tu allan fel ei gilydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwad helaeth o flociau pren, sy'n cefnogi eu datblygiad cyffredinol yn hynod effeithiol.

Dan arweiniad y pennaeth cynorthwyol, mae’r feithrinfa yn rhannu ei harfer dda yn y Cyfnod Sylfaen gydag ymarferwyr o bedwar awdurdod lleol cyfagos. Mae hyn yn cynnwys ffocws penodol ar strategaethau ar gyfer annog medrau ysgrifennu cynnar.

Mae’r feithrinfa yn adolygu ei chyllideb yn ofalus a rheolaidd, gyda chefnogaeth briodol gan y corff llywodraethol. Yn gyffredinol, mae’n neilltuo adnoddau yn briodol ac yn defnyddio cyllid i fodloni blaenoriaethau a nodwyd yn y cynllun datblygu. Fodd bynnag, eleni, mae’r feithrinfa wedi defnyddio grantiau i gynnal staffio yn hytrach na’u diben bwriadedig.

Yng ngoleuni’r deilliannau rhagorol a gyflawnir gan y plant, ac ansawdd da’r ddarpariaeth addysgol, mae’r feithrinfa’n darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| Statement | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | Datganiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 29 | 28 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 30 | 28 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 30 | 29 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 22 | 4 | 0 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 30 | 29 | 1 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 30 | 29 97% | 1 3% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 30 | 27 90% | 3 10% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 30 | 30 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 30 | 27 90% | 3 10% | 0 0% | 0 0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 30 | 30 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 25 93% | 2 7% | 0 0% | 0 0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 30 | 23 77% | 7 23% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 30 | 30 100% | 0 0% | 0 0% | 0 0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Tîm |
| Helen Brigid Potts | Arolygydd Lleyg |
| Michael Fryer | Arolygydd Cymheiriaid |
| Linda Ryan (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.